YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU

GERBRON Y GWIR ANRHYDEDDUS FARWNES HALLETT D.B.E.

SYLWADAU I GLOI MODIWL 6

AR RAN LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwyniad

1. Mae'r sylwadau hyn i gloi'r modiwl yn ymhelaethu ar y sylwadau llafar a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru a byddant yn canolbwyntio ar themâu a godwyd yn ystod y gwrandawiadau a'r dystiolaeth allweddol a glywyd, ac yn mynd i'r afael â gwersi a ddysgwyd, myfyrdodau ac argymhellion.

Cefndir

2. Fel y pwysleisiwyd eisoes, Llywodraeth Cymru a bennodd bolisi cenedlaethol mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn ystod y pandemig, ond y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru oedd yn gyfrifol am gyflawni'r polisi hwnnw a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol yng Nghymru. [1] Mae eu cyfrifoldebau statudol, a'u rôl weithredol, y unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

3. Cafodd seilwaith a systemau presennol y llywodraeth eu hategu gan grwpiau a strwythurau pwrpasol i helpu i reoli heriau'r pandemig. Crëwyd Hyb Cydgysylltu Gofal Cymdeithasol COVID-19 fel strwythur newydd yn ystod y pandemig, [2]a bu'n rhan o amrywiaeth eang o ffrydiau gwaith a effeithiodd ar y sector gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru, gan gynnwys darparu cyfarpar diogelu personol, profi, brechu, a chyfyngiadau ymweld. Cydgysylltodd yr Hyb lif gwybodaeth yn ymwneud â COVID-19 i mewn ac allan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio a chefnogodd y broses o gofnodi gweithgarwch a chyflwyno adroddiadau er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael i weithredu arni.[3]

---

1 Gweler siart sefydliadol INQ000495978
[2] Heaney, 15/7 [119/1-2]
[3] INQ000551798/10; para 29

Natur y sector gofal

4. Roedd y sector gofal yng Nghymru yn cynnwys nifer mawr o gartrefi gofal bach yn bennaf, gyda "*very passionate and dedicated social care workforce*."[4]Yn ystod y pandemig, roedd tua 1,500 o gartrefi gofal yng Nghymru, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu rhedeg yn breifat (tua 92%), gan ffurfio rhan o sector tameidiog ym marn Albert Heaney[5], Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, a oedd yn cynnwys darpariaeth gyhoeddus a phreifat ar draws gwasanaethau gofal preswyl, gofal nyrsio a gofal cartref.

5. Fel y mwyafrif helaeth o'r Cyfranogwyr Craidd, roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o heriau hirsefydlog, a oedd yn bodoli eisoes, yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys gweithlu ar gyflog cymharol isel, trosiant staff uchel, a lefelau cymharol isel o gyllid. Siaradodd Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddechrau'r pandemig, am ei awydd i *"raise the esteem in which the [social care] workforce is held"*.[6] Nododd Mr Heaney fod yr heriau hyn yn golygu bod y sector gofal cymdeithasol *"in a fragile… vulnerable* state" ar ddechrau'r pandemig.[7]

6. Wrth fynd i'r afael â gwersi a ddysgwyd ar ddiwedd ei thystiolaeth, myfyriodd Gillian Baranski, Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Cymru, ar yr angen i'r sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol gael eu hystyried yn rhyngddibynnol, a'r angen i sicrhau bod yr un parch yn cael ei roi i'r gweithlu gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal iechyd[8].

7. Er i dystion Llywodraeth Cymru gydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau bod yr un parch yn cael ei roi i'r sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol dros amser, mae'n bwysig nodi y bu integreiddio'r system iechyd a'r system gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ers tro. Yn 2018, cyhoeddwyd 'Cymru Iachach'[9], yn nodi cynllun hirdymor y llywodraeth ar gyfer 'dull system gyfan.'

8. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r nod hwn ac yn nodi bod gwerth a phwysigrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol wedi cael cydnabyddiaeth gyhoeddus ehangach yn ystod y pandemig. Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddull system gyfan, ac mae o'r farn bod y ddau sector yn dibynnu ar ei gilydd, a'u bod yn chwarae rôl sydd yr un mor bwysig fel gwasanaethau cyhoeddus.

---

[4] Baranski, 7/7 [145/21]
[5] Heaney, 15/7 [120/7]
[6] Gething, 15/7 [4/21]
[7] Heaney, 15/7 [119-120/23-1]
[8] Baranski, 15/7 [183/13-17]
[9] INQ000066130

Rhyddhau o'r ysbyty

9. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol[10] Ddatganiad Ysgrifenedig yn esbonio iddo gytuno ar fframwaith o gamau gweithredu cenedlaethol y cytunwyd arnynt i ddarparu gofal a chymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed, gan sicrhau hefyd fod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn cael eu cefnogi i baratoi ar gyfer y cynnydd yn nifer yr achosion a gadarnhawyd mewn modd amserol. Roedd y fframwaith yn cynnwys mesurau i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol yn ystod y pandemig ac i leihau unrhyw oedi mewn perthynas â dewis cartref gofal. Byddai hyn yn sicrhau bod gwelyau ysbyty ar gael i bobl yr oedd eu hangen arnynt pan fyddai unrhyw gynnydd sydyn yn y galw ac yn diogelu cleifion drwy osgoi'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â chyfnodau hir yn aros i gael eu derbyn i'r ysbyty. Ffurfiolwyd y mesurau hyn ar 20 Mawrth 2020.

10. Er i Mr Gething dderbyn na ellid diystyru'r posibilrwydd o drosglwyddiad asymptomatig erbyn 13 Mawrth 2020[11], roedd y penderfyniadau anodd a fu'n sail i'r fframwaith yn ymwneud â'r angen i gynnal capasiti ysbytai a mynediad at ofal iechyd.

11. Fel yr esboniodd Mr Gething, nod y fframwaith oedd ystyried y niwed tebygol ar sail y dystiolaeth feddygol a gwyddonol orau a oedd ar gael ar y pryd. [12] Fe'i lluniwyd ymysg pryderon bod angen cymryd camau brys i leihau'r pwysau ar gapasiti ysbytai a diogelu'r system iechyd a'r system gofal cymdeithasol rhag y risg wirioneddol y gallent chwalu'n drychinebus.

12. Ni roddodd Llywodraeth Cymru flaenoriaeth i'r gwasanaeth iechyd dros ofal cymdeithasol, ond yn lle hynny, fel yr esboniodd Mr Gething, ceisiodd wneud dewis cymdeithas gyfan[13] a oedd yn mynd i'r afael â'r niwed tebygol, gan gynnwys effaith enbyd ar y sector gofal, yn enwedig ar bobl hŷn a phobl fwy agored i niwed, a oedd yn cyfrif am gyfran fawr o'r sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol.

13. Nid oedd Mr Gething yn cytuno y dylid bod wedi cyflwyno polisi o 13 Mawrth 2020 ymlaen yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl dderbyniadau newydd i gartrefi gofal gael eu profi ac iddynt ynysu ar ôl cael eu derbyn, gan gadarnhau bod penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r dystiolaeth wyddonol ar y pryd ac, fel y nodwyd ym Modiwl 7, bod y penderfyniad i beidio â phrofi cleifion wrth

[10] INQ000198262
[11] Gething, 15/7 [8/14-15]
[12] Gething, 15/7 [10/12-13]
[13] Gething, 15/7 [99/13]

eu rhyddhau yn cyd-fynd â chyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) ar flaenoriaethu profion i sicrhau'r effaith orau bosibl. [14]

14. Fodd bynnag, derbyniodd Mr Gething, wrth edrych yn ôl, gan wybod yr hyn a wyddom nawr, y byddai profi cleifion wrth eu rhyddhau wedi lleihau'r risg[15]. Wrth fynd i'r afael ag argymhellion ar gyfer y dyfodol, roedd Mr Gething o'r farn y byddai profi derbyniadau newydd i gartrefi gofal yn fesur rhagofalus synhwyrol mewn egwyddor, gan nodi cafeat clir y byddai angen i benderfyniad o'r fath fod yn seiliedig ar argaeledd profion a'r tebygolrwydd cyffredinol o niwed a risg.[16]

15. Myfyriodd Mr Gething, er nad rhyddhau pobl i gartrefi gofal – eu man preswylio mewn sawl achos – heb eu profi oedd y ffactor pwysicaf[17] wrth ystyried sut y trosglwyddwyd haint COVID-19 i gartrefi gofal, fod hynny yn ffactor. Nodir bod astudiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a ystyriodd 3,000 o achosion o ryddhau cleifion o'r ysbyty wedi nodi amrywiaeth o gartrefi gofal heb unrhyw frigiad o achosion, h.y. canfu'r astudiaeth hon a oedd yn benodol i Gymru nad achosodd rhyddhau cleifion o'r ysbyty gynnydd ystadegol arwyddocaol yn y risg o frigiad o achosion mewn cartrefi gofal.[18]

16. O ran argymhellion, roedd Mr Gething yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gael gwybodaeth am nifer y bobl sy'n cael eu rhyddhau i gartrefi gofal yn y dyfodol.[19]

Canllawiau ar Ryddhau Cleifion i Gartrefi Gofal

17. Ar 8 Ebrill 2020, dosbarthwyd fersiwn derfynol canllawiau Llywodraeth Cymru ar ryddhau cleifion o'r ysbyty o dan lythyr eglurhaol a anfonwyd at fyrddau iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.[20] Wrth ddatblygu'r canllawiau, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.[21]

18. Yn ei sylwadau agoriadol ar gyfer Modiwl 6, cydnabu Llywodraeth Cymru yr oedi cyn cyhoeddi canllawiau ar ryddhau cleifion i gartrefi gofal, gan nodi:

> *"Ar 15 Ebrill 2020, gwnaed y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru na ddylid rhyddhau cleifion o'r ysbyty i gartref gofal nes eu bod wedi cael canlyniad prawf negatif ar gyfer COVID-19. Cadarnhawyd hyn mewn llythyrau at bob darparwr cofrestredig ac unigolyn cyfrifol gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru ar 22 Ebrill 2020, ac at Brif*

[14] Gething, 15/7 [15/7-11]
[15] Gething, 15/7 [11/6-11]
[16] Gething, 15/7 [11/16-19]
[17] INQ000350810 a Gething, 15/7 [38/15-25]
[18] Gething, 15/7 [38/15-25]
[19] Gething, 15/7 [19/7-10]
[20] INQ000227334, INQ000236770
[21] INQ000625223

Weithredwr pob bwrdd iechyd yng Nghymru, ymhlith eraill, ar 24 Ebrill 2020. Dilynwyd hyn gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar 29 Ebrill 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, o ystyried y sefyllfa frys a oedd ohoni pan gafodd y penderfyniadau hyn eu gwneud a'u rhoi ar waith, y dylid bod wedi cyhoeddi'r canllawiau yn gynt."

19. Yn gryno, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y bu oedi o bythefnos rhwng penderfynu ei gwneud hi'n ofynnol i gleifion gael prawf negatif cyn cael eu derbyn i gartref gofal ar 15 Ebrill 2020 a chyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar 29 Ebrill 2020. Nododd Mr Heaney mewn tystiolaeth fod Llywodraeth Cymru yn ymddiheuro'n fawr am y cyfnod o amser a gymerodd i ddiweddaru'r canllawiau. [22]

20. Cadarnhaodd Mr Gething mewn tystiolaeth y gallai'r canllawiau diwygiedig fod wedi cael eu darparu'n gynt, ond nododd hefyd fod y newid mewn ymarfer wedi dechrau cyn i'r canllawiau gael eu llunio,[23] yn dilyn llythyrau a anfonwyd at bob darparwr gofal cymdeithasol cofrestredig ar 22 Ebrill 2020. Yn fwy cyffredinol, roedd angen i Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgymryd â gwaith cyn y gellid cyflwyno'r dull gweithredu newydd, fel y dangosodd nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2020[24], yn ogystal â'r gronoleg a nodwyd yn natganiad HSSG/01 Mr Heaney.[25]

21. Aeth canllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 29 Ebrill 2020 gam ymhellach na'r canllawiau yn Lloegr drwy fynd i'r afael â llety gofal llai dwys. Roedd y canllawiau i Gymru hefyd yn cynnwys trosglwyddiadau o gartrefi gofal eraill a derbyniadau o leoliadau cymunedol. Roedd y canllawiau i Loegr yn caniatáu i gleifion gael eu rhyddhau cyn bod canlyniad y prawf yn hysbys, pe bai'n ymarferol iddynt ynysu, ond roedd y canllawiau i Gymru yn argymell y dylid aros am ganlyniad negatif cyn eu rhyddhau, yn enwedig i gartrefi gofal, gan adlewyrchu ymagwedd fwy gofalus.

22. Cytunodd Mr Heaney mewn tystiolaeth fod cyflwyno 'cyfleusterau gofal llai dwys' (i alluogi cleifion i ynysu ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty a chyn dychwelyd i leoliadau gofal cymdeithasol) yn gynnar yn bwynt dysgu allweddol o'r pandemig, ac y dylid cyflwyno cyfleusterau o'r fath cyn gynted â phosibl yn achos pandemig yn y dyfodol. [26]

<u>Profion Asymptomatig</u>

---

[22] Heaney, 15/7 [144/7]
[23] Gething, 15/7 [33/3]
[24] INQ000499632
[25] INQ000551798/99-100, paragraffau 348-352

[26] Heaney 15/7 [131/9-12]

23. Mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'r ymchwiliad na chyflwynwyd profion asymptomatig cyffredinol mewn cartrefi gofal yng Nghymru cyn 16 Mai 2020, am mai'r cyngor yr oedd wedi ei gael hyd hynny oedd nad oedd y dystiolaeth wyddonol yn ei gefnogi. [27] Cadarnhaodd Mr Gething hyn yn ystod ei dystiolaeth. [28]

24. Er gwaethaf hyn, ar ddechrau mis Mai 2020, cyflwynwyd profion asymptomatig wedi'u targedu mewn cartrefi gofal yng Nghymru lle roedd brigiad o achosion. Gwnaed hyn ar ôl cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynglŷn â phrofion asymptomatig mewn cartrefi gofal ar 28 Ebrill 2020, ond cyflwynodd Llywodraeth y DU hefyd ddull gweithredu wedi'i dargedu, ac ni chyflwynwyd profion asymptomatig yn Lloegr tan yn ddiweddarach.

25. Yn ystod cyfarfod y gweinidogion iechyd ar 5 Mai 2020, cyfeiriodd Matt Hancock, Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd Llywodraeth y DU, at gyngor yn ymwneud â chynnal profion asymptomatig ar holl breswylwyr cartrefi gofal. Fodd bynnag, ni chafodd y cyngor hwn erioed ei rannu â Llywodraeth Cymru ar unrhyw lefel, ac ni chafodd ei adlewyrchu yng nghyngor y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau ar y pryd chwaith.[29] Cred Llywodraeth Cymru y dylai'r holl wybodaeth berthnasol fod wedi cael ei rhannu rhwng Prif Swyddogion Meddygol y pedair gwlad y DU yn ddi-oed.

26. Fel y cadarnhaodd Mr Gething mewn tystiolaeth, roedd y penderfyniadau am brofion asymptomatig o reidrwydd yn seiliedig ar y cyngor gwyddonol a oedd ar gael ar y pryd, ac nad oeddent yn seiliedig ar gapasiti profi. Wedi dweud hynny, cydnabu Mr Gething pe bai'r cyngor gwyddonol i gyflwyno profion asymptomatig wedi'i gyhoeddi'n gynt, y byddai Llywodraeth Cymru wedi gorfod ystyried her ymarferol darparu a blaenoriaethu'r profion a oedd ar gael.[30]

<u>Cyfyngiadau ar ymweliadau</u>

27. Disgrifiwyd y cyfyngiadau ar ymweld â chartrefi gofal fel un o'r materion mwyaf emosiynol[31] a wynebwyd yn ystod y pandemig. Ceisiodd Llywodraeth Cymru daro cydbwysedd gofalus rhwng y risg o niwed a manteision ymweld. Ar y naill law, roedd atal lledaeniad COVID-19 a'r risgiau sylweddol i breswylwyr agored i niwed cartrefi gofal a staff yn hollbwysig, ond ar y llaw arall, roedd angen hybu llesiant ehangach y preswylwyr hynny a'u teuluoedd.

---

[27] INQ000116607
[28] Gething 15/7 10/52/19-10/53/7
[29] INQ000327582/15-16; Gething, 15/7 [48/3-13]
[30] Gething, 15/7 [17/7]
[31] Baranski, 7/7 [178/13]

28. Er mwyn helpu darparwyr i wneud penderfyniadau am ymweliadau o fewn fframwaith rheoliadol cyfyngiadau deddfwriaethol COVID-19, lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau anstatudol. Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth am y fersiynau gwahanol o'r canllawiau ar ymweld â chartrefi gofal, a ddiweddarwyd yn rheolaidd [32]i ddiwygio'r cyfyngiadau er mwyn adlewyrchu'r ddealltwriaeth a oedd yn datblygu o'r feirws a lefelau risg a oedd yn newid.

29. Er y cydnabyddir bod darparwyr wedi gorfod mynd i'r afael â fersiynau gwahanol o'r canllawiau, ac yn ei dro, y bu angen iddynt adolygu eu hymarfer yn rheolaidd, cred Llywodraeth Cymru fod y canllawiau a ddiweddarwyd yn rheolaidd wedi taro'r cydbwysedd cywir a bod hynny'n angenrheidiol i sicrhau bod yr ymarfer yn gymesur â lefel y risg ar y pryd. Pe bai canllawiau a oedd wedi dyddio wedi parhau i fod mewn grym, gallai hynny fod wedi peri risg o reolau a oedd yn rhy gyfyngedig neu wedi cynyddu'r risg o drosglwyddo'r feirws.

30. At hynny, rhoddodd Arolygiaeth Gofal Cymru y cyfle i ddarparwyr drafod y canllawiau mewn grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys gyda chynrychiolwyr pobl ag anableddau dysgu,[33] a chynhaliodd hefyd seminarau ar y broses asesu risg er mwyn i ddarparwyr ddeall sut i gymhwyso'r canllawiau.[34]

31. Mae'n bwysig pwysleisio na chymeradwyodd Llywodraeth waharddiad cyffredinol ar ymweliadau ar unrhyw adeg, a'i bod wedi cymryd camau prydlon a phriodol pan ddaeth yn amlwg bod rhai awdurdodau lleol neu ddarparwyr gofal wedi cyflwyno gwaharddiadau cyffredinol ar lefel leol yn ôl pob golwg.

32. Pwysleisiodd Mr Heaney mewn tystiolaeth y camau cyflym ac effeithiol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i ysgrifennu at bob awdurdod lleol ledled Cymru i nodi disgwyliadau ar lefel leol.[35]

33. Er i Mr Gething nodi, o edrych yn ôl, gan ystyried yr wybodaeth am y dull trosglwyddo, awyru a risg is ymweliadau yn yr awyr agored, y gellid bod wedi cyflwyno ymweliadau yn yr awyr agored yn gynt,[36] pwysleisiodd fod y penderfyniadau a wnaed yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol a oedd ar gael ar y pryd.

---

[32] Rhoddwyd crynodeb o hyn yn sylwadau agoriadol Llywodraeth Cymru ar gyfer Modiwl 6
[33] Baranski, 7/7 [179/7-10]
[34] Baranski, 7/7 [180/7-9]
[35] Heaney, 15/7 [169/24-25]
[36] Gething, 15/7 [102/16-17]

34. Cymerodd Llywodraeth Cymru gamau rhagweithiol ac arloesol i helpu lleoliadau gofal i hwyluso ymweliadau lle bynnag y bo'n bosibl a tharo'r cydbwysedd cywir yng ngoleuni'r risgiau a'r dystiolaeth a oedd yn hysbys ar unrhyw adeg benodol. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys y cynllun podiau ymweld llwyddiannus a'r cynllun benthyg dyfeisiau i alluogi cyswllt o bell, lle darparodd Cymunedau Digidol Cymru 1,009 o ddyfeisiau i 559 o gartrefi gofal ledled Cymru a hyfforddiant i 350 o staff rheng flaen.

Arolygiadau

35. Mae'r Ymchwiliad wedi clywed tystiolaeth am y penderfyniad a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Cymru i oedi arolygiadau *cyffredinol* o 16 Mawrth 2020, am ei bod yn pryderu am y risg y gallai arolygwyr drosglwyddo COVID-19 i gartrefi gofal ac yn ymwybodol iawn o'r pwysau aruthrol ar wasanaethau gofal cymdeithasol ar y pryd. At hynny, roedd diffyg dealltwriaeth ar y pryd o ran sut roedd y feirws yn cael ei drosglwyddo, ac felly, penderfynodd yr Arolygiaeth oedi arolygiadau cyffredinol er mwyn diogelu preswylwyr cartrefi gofal a galluogi gwasanaethau gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar ofalu am y rhai yn eu gofal a'u staff.[37]

36. Dywedodd Ms Baranski fod effaith bosibl COVID-19 wedi dod yn real iawn ar ôl i un o'i chydweithwyr ddychwelyd o daith dramor ym mis Chwefror 2020 a datblygu symptomau COVID-19 ar ôl gwneud prawf. Roedd y prawf yn negatif, ond crisialodd a phwysleisiodd y risg bosibl y gallai ymweliad arolygu drosglwyddo'r feirws i garfan agored i niwed o breswylwyr. Roedd hyn yn annerbyniol ym marn Ms Baranski. [38]

37. Gwnaed y penderfyniad i oedi arolygiadau cyffredinol yn dilyn 19 o hysbysiadau o achosion posibl neu achosion a gadarnhawyd o COVID-11 gan gartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref, ac ar 19 Mawrth 16, yr hysbysiad cyntaf am farwolaeth o ganlyniad i achos posibl/a gadarnhawyd o COVID-2020 mewn cartref gofal.

38. Er i rai Cyfranogwyr Craidd awgrymu bod yr anallu i gynnal arolygiadau wyneb yn wyneb mewn cartrefi gofal wedi golygu bod diffyg goruchwyliaeth reoleiddiol, mae hyn yn camddeall y sefyllfa yn llwyr. Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Awst 2021 – y cyfnod pan oedwyd arolygiadau cyffredinol – dim ond nifer bach iawn o ymweliadau arolygu a gynhaliwyd yn rhithwir mewn gwirionedd. O blith yr 808 o arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd 786 yn ymweliadau safle wyneb yn wyneb a dim ond 66 yn ymweliadau safle rhithwir.

---

[37] Baranski, 7/7 [150/]
[38] Baranski 6/150/14-25 a 6/152/10-14

39. At hynny, fel yr esboniodd Ms Baranski, yn ystod y cyfnod pan oedwyd arolygiadau cyffredinol, llwyddodd Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd i roi sicrwydd am ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn y sector gofal, ac er bod arolygiadau yn adnodd pwerus iawn yn y fframwaith rheoleiddio, rhoddwyd sicrwydd mewn ffyrdd eraill y tu hwnt i arolygiadau.[39] Er enghraifft, parhaodd arolygwyr i fonitro a mynd ar drywydd hysbysiadau, pryderon a digwyddiadau diogelu a gwasanaethau a oedd eisoes yn destun camau gorfodi er mwyn sicrhau ansawdd a diogelwch gofal.[40] Cynhaliwyd trafodaethau rheolaidd â chomisiynwyr awdurdodau lleol er mwyn rhannu gwybodaeth am wasanaethau. At hynny, rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru 11,000 o alwadau dal i fyny â darparwyr er mwyn cynnig cymorth a meithrin dealltwriaeth o'r sefyllfa ar lawr gwlad.[41]

40. Drwy'r galwadau hyn, rhoddwyd gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am faterion amrywiol, gan gynnwys mynediad at gyfarpar diogelu personol, a bu modd iddi godi'r materion hyn â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol. Nododd Mr Baranski mewn tystiolaeth fod llawer o ddarparwyr gofal o'r farn bod y galwadau dal i fyny yn fuddiol, yn ôl adborth a gafwyd gan y bwrdd cynghori cenedlaethol. [42] O ganlyniad, parhaodd goruchwyliaeth reoleiddiol yn wyneb y rhwystrau a gyflwynwyd gan y pandemig.

41. Sefydlodd Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd system statws Coch, Melyn, Gwyrdd (RAG) ychwanegol[43] o fis Mai 2020 er mwyn galluogi arolygwyr i edrych yn benodol ar wasanaethau â brigiadau o achosion o COVID-19, nodi lle y gallai pobl fod yn wynebu risg, a chytuno ar gamau goruchwylio, arolygiadau posibl, a chamau gweithredu pellach. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i gytuno ar yr hyn y gallai fod ei angen i gefnogi'r gwasanaeth. Lle roedd darparwr gwasanaeth yn wynebu risg uwch, roedd yn destun lefelau cynyddol o waith monitro, gan gynnwys galwadau mynych, a allai arwain at arolygiad. [44]

42. Erbyn mis Mehefin 2020, roedd digon o gyfarpar diogelu personol a phrofion ar gael ar gyfer arolygwyr fel bod modd cynnal mwy o arolygiadau.

43. Ym mis Awst 2020, cyflwynwyd galwadau monitro yn lle galwadau dal i fyny[45]. Cynhaliwyd 2,500 o'r galwadau hyn, gan gynnig lefel uwch o graffu, ac roeddent yn debycach i weithgarwch

---

[39] Baranski, 7/7 [148/8-9]
[40] INQ000335481/19, para61
[41] Baranski, 7/7 [155/1-5]
[42] Baranski, 7/7 [164/7-12]
[43] Mae RAG yn cyfeirio ar yr adnodd sgorio risg coch, melyn, gwyrdd
[44] Baranski, 7/7 [159/9-13]
[45] Baranski, 7/7 [162/21]

rheoleiddio arferol.[46] O 4 Awst 2021, ailgyflwynodd Arolygiaeth Gofal Cymru lefel yr arolygiadau cyffredinol a welwyd cyn y pandemig. [47]

44. Ar y cyfan, mabwysiadodd yr Arolygiaeth ddull gweithredu hyblyg a phriodol gytbwys, gan addasu i ofynion y pandemig wrth iddynt newid a'r gostyngiad mewn risg dros amser.

Cyfarpar Diogelu Personol

45. Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru fod darparu cyfarpar diogelu personol priodol o safon uchel yn flaenoriaeth allweddol wrth sicrhau diogelwch a llesiant y gweithlu gofal cymdeithasol a'r rhai a oedd yn cael gofal.

46. O 19 Mawrth 2020, estynnwyd cylch gwaith Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gynnwys caffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer lleoliadau gofal cymdeithasol i oedolion yn ogystal â lleoliadau gofal iechyd. Nododd hyn estyniad sylweddol i'w gylch gwaith. Gweithiodd y broses o gaffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sector gofal, a arweiniwyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yn dda iawn ar ôl iddi gael ei sefydlu, a dywedodd Mr Gething y bu, ar y cyfan, yn llwyddiannus.[48]

47. Erbyn 7 Mai 2020, roedd dwy ran o dair o anghenion y sector gofal o ran cyfarpar diogelu personol yn cael eu diwallu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, gyda'r lleoliadau gofal a oedd yn weddill yn sicrhau cyfarpar diogelu personol drwy eu dulliau eu hunain. [49]

48. Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2022, darparodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fwy na 1.3 biliwn o eitemau o gyfarpar diogelu personol i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru; o blith y rhain, dosbarthwyd tua 550 miliwn i'r sector gofal cymdeithasol. [50]

49. Ni ddaeth y cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol i ben ar lefel genedlaethol yng Nghymru, er y wynebwyd heriau yn ystod misoedd cynnar y pandemig o ganlyniad i broblemau dosbarthu ar lefel leol, fel y nodir yn glir yn sylwadau cloi Llywodraeth Cymru ar gyfer Modiwl 5.

---

[46] Baranski, 7/7 [162/20]
[47] Baranski, 7/7 [165/20-23]
[48] Gething, 15/7 [67/2]
[49] Gething, 15/7 [76/8-15]
[50] INQ000587254/55; para 206

50. O ran argymhellion, nododd Mr Gething, pe bai pandemig yn y dyfodol, y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i gyflwyno proses a arweinir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o gaffael cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sector gofal, o ystyried llwyddiant y model hwn.

Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol

51. Mae Llywodraeth Cymru yn adleisio teyrnged Ms Baranski yn ei thystiolaeth i wydnwch, arloesedd a natur benderfynol y gweithlu gofal cymdeithasol. Nododd lawer o enghreifftiau o ofal tosturiol, ymroddedig ac anhunanol iawn, wedi'i gefnogi gan reolaeth gadarn, a welwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod y pandemig.[51]

52. Clywyd tystiolaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol a'r heriau a wynebwyd gan y sector, yn ogystal â materion hysbys yn ymwneud â throsiant gweithlu uchel, cyflog isel a heriau o ran recriwtio a chadw.

53. Nid oedd Mr Gething o'r farn y gellid goresgyn yn hawdd y risg bosibl y gallai'r haint gael ei drosglwyddo gan staff a oedd yn gweithio mewn nifer o gartrefi gofal neu safleoedd. Yn hytrach, nododd Mr Gething fod sefyllfa'r gweithlu gofal cymdeithasol yn fwy cymhleth, a bod angen canolbwyntio ar dâl salwch a thâl ac amodau yn y sector yn fwy cyffredinol, er mwyn lleihau'r risg a oedd yn gysylltiedig â staff yn gweithio mewn nifer o safleoedd.[52]

54. Yn ystod y pandemig, cydnabu Llywodraeth Cymru bwysigrwydd cymorth i weithwyr gofal cymdeithasol. Er enghraifft, sefydlwyd y Cynllun Taliadau Arbennig ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol er mwyn cydnabod lefel sylweddol y risg a wynebwyd gan weithwyr gofal a'r cyfrifoldeb arnynt yn ystod y pandemig. [53]

55. Cyflwynwyd y cynllun Tâl Salwch Statudol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2020, yn hwyrach nag mewn rhannau eraill o'r DU. Esboniodd Mr Gething fod diffyg sicrwydd am gyllid o ganlyniad i gyllid canlyniadol Barnett[54] wedi arwain at oedi ac y byddai, o edrych yn ôl, wedi hoffi pe bai'r penderfyniad hwn wedi gallu cael ei wneud yn gynt[55]. Fodd bynnag, dim ond pe bai Llywodraeth y DU wedi rhoi mwy o eglurder ynghylch argaeledd cyllid y byddai hyn wedi bod yn bosibl.

---

[51] Baranski, 7/7 [146/16-18]
[52] Gething, 15/7 [40/1-6]
[53] INQ000144869 a INQ000144895
[54] Gething, 15/7 [42/10-11]
[55] Gething, 15/7 [43/20-21]

56. Roedd Mr Gething o'r farn, pe bai pandemig yn y dyfodol, y dylai cynllun ar gyfer y DU gyfan neu drefniadau cydweithio rhwng y pedair llywodraeth y DU mewn perthynas â thâl salwch yn y sector gofal fod yn un o'r prif flaenoriaethau.[56]

57. Nododd Mr Gething hefyd fod yr her yn ymwneud â chyflogau yn rhan o ddiwygiadau tymor hwy angenrheidiol yn y sector gofal. Cyflwynwyd y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru ym mis Ebrill 2022.

58. Aeth Llywodraeth Cymru ati hefyd i wneud gwaith penodol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â recriwtio a chadw'r gweithlu drwy gynnal ymgyrch recriwtio, creu porth swyddi, ariannu cwrs pedwar diwrnod am ddim yn rhoi cyflwyniad i ofal cymdeithasol, a hyrwyddo cynlluniau prentisiaeth yn y sector gofal cymdeithasol.

Brechu gweithlu'r sector gofal cymdeithasol

59. Yng Nghymru, nid oedd yn ofynnol i staff a oedd yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gael eu brechu er mwyn cyflawni eu rolau neu ymgymryd â dyletswyddau penodol. Cafodd brechiad ei annog, ond ni fu erioed yn ofyniad cyfreithiol nac yn amod lleoli ar gyfer swyddi rheng flaen neu swyddi a oedd yn wynebu cleifion. Yn lle hynny, mabwysiadodd Cymru ddull gwirfoddol, gan flaenoriaethu a defnyddio canllawiau ar iechyd y cyhoedd i annog pobl i gael eu brechu, yn enwedig y rhai a oedd yn gweithio mewn rolau lle roedd mwy o risg y gallai COVID-19 gael ei drosglwyddo. Erbyn 12 Chwefror 2021, roedd holl staff a phreswylwyr cartrefi gofal, staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen, pawb dros 70 oed a phawb a oedd yn agored iawn i niwed yn glinigol wedi cael cynnig brechiad, a Chymru oedd y gyntaf o blith pedair gwlad y DU i gyrraedd y garreg filltir allweddol hon.

60. Ar 16 Mehefin 2021, roedd 92.3% o weithwyr cartrefi gofal yng Nghymru wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn ac roedd 85.7% wedi cael eu hail ddos. Rhagorodd y rhaglen frechu yng Nghymru ar y lefelau brechu gofynnol a argymhellwyd gan SAGE, a hynny o bell.

Cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol

61. Clywodd yr Ymchwiliad nifer o Gyfranogwyr Craidd yn awgrymu y dylid cyflwyno cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol er mwyn deall a monitro'r gweithlu yn well. Mae cofrestr o'r fath eisoes yn bodoli yng Nghymru, lle mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol, gweithwyr cartrefi gofal i oedolion, gweithwyr cymorth cartref ac eraill i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn chwe mis i ddechrau yn eu rôl.

[56] Gething, 15/7 [45/18-20]

Gofalwyr di-dâl

62. Roedd gofalwyr di-dâl yn bresennol ym mhob un o'r cynadleddau wythnosol i'r wasg a gynhaliwyd yng Nghymru yn ystod y pandemig a gallent ofyn cwestiynau i'r gweinidogion[57], gan alluogi lleisiau'r gofalwyr hollbwysig hyn i gael eu hystyried a'u clywed gan Lywodraeth Cymru.

63. Ar 22 Mai 2020, penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnwys gofalwyr di-dâl yn ei threfniadau ar gyfer cyflenwi cyfarpar diogelu personol.

64. Rhoddodd Llywodraeth Cymru amrywiaeth o fesurau ar waith i gefnogi gofalwyr, gan gynnwys y Gronfa Gymorth i Ofalwyr, a oedd ar gael i ofalwyr di-dâl. Fodd bynnag, cydnabu Mr Gething mewn tystiolaeth mai un o'r gwersi a ddysgwyd oedd y ffordd orau o gefnogi gofalwyr di-dâl.[58]

65. Gan gydnabod yr heriau ehangach i ofalwyr, rhoddodd Cronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru £50,000 i Gofalwyr Cymru i ehangu eu cymorth iechyd meddwl i ofalwyr.[59]

66. Sefydlwyd Grant Cymorth i Ofalwyr gwerth £1 filiwn i gefnogi gofalwyr, i'w reoli gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, a dyrannwyd gwerth £250,000 o gyllid ychwanegol ym mis Rhagfyr 2020.

67. Gan gydnabod rôl allweddol gofalwyr di-dâl, ym mis Mawrth 2022, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid ar gyfer taliad untro o £500[60] i ofalwyr di-dâl yng Nghymru i gydnabod y pwysau ariannol roeddent wedi eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig.

68. Ymrwymwyd cyllid hefyd i wella gwasanaethau seibiant i atal blinder meddyliol ymhlith gofalwyr, gyda chynllun seibiannau byr i ofalwyr di-dâl.

Gorchmynion Peidiwch â Dechrau Adfywio Cardiopwlmonaidd (‘DNACPR’)

69. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru erioed fabwysiadu na chymeradwyo dull cyffredinol o ymdrin â gorchmynion DNACPR, ac ymdriniodd ag unrhyw bryderon y tynnwyd ei sylw atynt mewn modd rhagweithiol.

70. Esboniodd Ms Baranski “*there was a very clear pushback from Welsh Government, from ourselves* (h.y. Arolygiaeth Gofal Cymru) *and from Public Health Wales that you cannot make blanket*

[57] Gething, 15/7 [6/18-23]
[58] Gething, 15/7 [6/15-17]
[59] INQ000103916
[60] INQ000499750

decisions about DNACPRs."[61] Yn yr un modd, cadarnhaodd Mr Gething na ddylid defnyddio ffactorau fel oedran neu anabledd i gyfiawnhau dull cyffredinol o orfodi gorchmynion DNACPR[62].

71. Fel y cadarnhaodd Mr Gething mewn tystiolaeth, ni fwriadwyd i benderfyniadau ynghylch gorchmynion DNACPR arwain at ddull cyffredinol o weithredu penderfyniadau DNACPR. [63] Mynegodd grwpiau cynrychiolwyr bryderon ar wahân bod gorchmynion DNACPR yn cael eu rhoi ar waith yn amhriodol, ac ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r pryderon hyn yn gyflym. Mae Llywodraeth Cymru yn deall y byddai'r achosion ar wahân hyn wedi peri gofid mawr i'r unigolion dan sylw a'u hanwyliaid.

72. Ar 17 Ebrill 2020, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru lythyr ar y cyd [64]yn cadarnhau bod yn rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud ar sail unigol ac ymgynghorol gyda phobl. Pwysleisiodd y llythyr na ddylai oedran, anabledd na chyflwr hirdymor fyth fod yn rheswm dros gyflwyno gorchymyn DNACPR.

73. At hynny, cyflwynodd Mr Gething lythyr at Aelod o'r Senedd[65] yn mynegi ei bryderon ei hun am adroddiadau y gallai hysbysiadau DNACPR fod wedi'u cyflwyno'n amhriodol i bobl ag anableddau dysgu a oedd wedi dal COVID-19, ac ailbwysleisiodd nad dyma oedd polisi Llywodraeth Cymru.

<u>Data</u>

74. Ystyriodd yr Ymchwiliad faterion allweddol yn ymwneud â chasglu a dadansoddi data. Yn ei datganiad tyst, nododd Stephanie Howarth, Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru, fod data yn bodoli mewn nifer o seilos, a oedd yn gwneud dadansoddi yn fwy anodd.

75. Yn yr un modd, mynegodd Mr Gething y farn bod data ym mhob rhan o'r sector gofal yn dameidiog[66], ac y byddai data mwy dibynadwy wedi rhoi trosolwg gwell[67] o'r sector. Myfyriodd Mr Gething ar bwysigrwydd sicrhau bod data rhagweladwy a dibynadwy ar gael i awdurdodau lleol ar gartrefi gofal, y gellid eu rhannu â Llywodraeth Cymru. [68]

---

[61] Baranski 7/7 [192/3-6]
[62] Gething, 15/7 [64/5-6]
[63] Gething, 15/7 [64/5-6]
[64] INQ000300106
[65] INQ000469312
[66] Gething, 15/7 [110/20]
[67] Gething, 15/7 [111/1-2]
[68] Gething, 15/7 [113/10-13]

76. Nododd Mr Gething hefyd fod y systemau ar gyfer casglu data ar wasanaethau iechyd yn fwy datblygedig na'r rheini ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, a bod hyn, i raddau helaeth, yn adlewyrchu natur wasgaredig y sector gofal cymdeithasol, gyda niferoedd mawr o gartrefi gofal bach, preifat. [69]

77. Yn ystod y pandemig, bu modd i Lywodraeth Cymru ehangu ei dealltwriaeth drwy fentrau megis y monitor data, a data a gyhoeddwyd ar farwolaethau mewn cartrefi gofal.

78. Myfyriodd Mr Gething ar bwysigrwydd cyhoeddi data ar gyfarpar diogelu personol er mwyn ennyn hyder am argaeledd cyflenwadau[70], a nododd fod deall y stoc ac am ba hyd y byddai'n para yn ddefnyddiol.

79. Myfyriodd Ms Howarth yn ofalus ar wersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig ac argymhellodd y dylid gwneud y newidiadau canlynol mewn perthynas â chasglu a rheoli data:

    (a) Mynediad i nifer o ddefnyddwyr ar draws adrannau at setiau data er mwyn lleihau baich rhannu data ar ffurf arloesedd technegol. Mae'r rhaglen trawsnewid digidol, yr Adnodd Data Cenedlaethol, yn rhaglen barhaus sy'n ceisio ei gwneud hi'n haws cyfuno data iechyd a gofal cymdeithasol gan nifer o ffynonellau;[71]

    (b) Yr angen i rannau gwahanol o'r llywodraeth a'r GIG gydweithio er mwyn datrys cwestiynau dadansoddol;

    (c) Nodi dulliau ar gyfer goruchwylio poblogaethau sy'n wynebu risg a sectorau gweithlu allweddol mewn modd amserol er mwyn llenwi bylchau pellach mewn data. Darparodd y seilwaith profi gyfoeth sylweddol o ddata a gallai gynnig cyfleoedd goruchwylio pellach pe bai gwybodaeth arall (e.e. galwedigaeth) yn cael ei chasglu ar yr un pryd neu fod modd ei chasglu drwy gysylltu â ffynhonnell addas arall; a

<u>Cyllid</u>

[69] INQ000587254/109, para 387
[70] Gething 15/7 [70-71/22-25; 1-4]
[71] INQ000572013/67, para 194

80. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid sylweddol i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig drwy Grant Caledi COVID-19 Awdurdodau Lleol[72], a thrwy'r Gronfa Adfer Gofal Cymdeithasol. [73]

81. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru werthusiadau rheolaidd o'r angen i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i'r sector a'r ffordd orau o sicrhau bod y sector gofal cymdeithasol yn parhau i ddiwallu anghenion poblogaeth Cymru yn ystod cyfnod o bwysau a galw cynyddol. Yn ei thystiolaeth, nododd Melanie Minty o Fforwm Gofal Cymru fod y cyllid hwn wedi'i groesawu gan y sector a'i fod, yn ddi-os, wedi atal llawer o gartrefi gofal rhag cau.[74]

82. Amlinellwyd yr amrywiaeth eang o fesurau ariannu ychwanegol yn ystod cyfnod y pandemig yn sylwadau agoriadol Llywodraeth Cymru.

Myfyrdodau

83. Myfyriodd Llywodraeth Cymru ar wersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig a chyhoeddodd gynlluniau yn ystod cyfnod y pandemig wrth iddi feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Covid-19: Edrych tua'r dyfodol'[75] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, a nododd y cyfeiriad ar gyfer adfer y system iechyd a gofal cymdeithasol, a 'Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol', a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021.[76] Roedd y cynlluniau hyn yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig ac yn sicrhau bod penderfyniadau pellach yn seiliedig ar brofiadau'r sector a'r angen i symud tuag at adfer.

84. Nod 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal' Llywodraeth Cymru oedd mynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd yn ystod y don gyntaf, gan gynnwys atgyfnerthu mesurau atal a rheoli heintiau, gwella cymorth i staff a sicrhau llesiant preswylwyr. Roedd y cynllun yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd o ran yr hyn a weithiodd yn dda yn ystod y don gyntaf a'r heriau a wynebwyd, ac roedd yn enghraifft o'r dull rhagweithiol a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth i ymgorffori a rhannu gwersi a ddysgwyd â'r sector yn gyflym. Ymhlith enghreifftiau roedd rhestr wirio atal a rheoli heintiau ar gyfer rheoli COVID-19 mewn cartrefi gofal, wedi'i hategu gan weminar ar gyfer darparwyr cartrefi gofal; cyflwyno'r rhaglen frechu yn llwyddiannus i staff a phreswylwyr cartrefi gofal; cyflwyno Tâl Cyflog Statudol uwch i weithwyr gofal, staff cymorth a staff asiantaeth na allent weithio o ganlyniad i COVID-19; ymgysylltu â phobl hŷn, oedolion iau a phlant sy'n byw mewn cartrefi gofal a gofyn iddynt am eu profiad yn ystod y pandemig ac, yn benodol, am yr hyn a gefnogodd eu llesiant yn

[72] INQ000551798/62-65 paragraffau 211-219
[73] INQ000551798/65-68, paragraffau 220-230
[74] Minty 14/7 [164/9-165-6]
[75] INQ000066129
[76] INQ000066072

ystod y cyfnod hwnnw; rhaglenni peilot ar gyfer defnyddio podiau ymweld a phrofi ymwelwyr; a'r cymorth ariannol parhaus drwy'r Gronfa Caledi Llywodraeth Leol

85. Nododd Mr Gething mewn tystiolaeth y byddai'r 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal', a oedd yn canolbwyntio ar chwe maes, sef atal a rheoli heintiau, cyfarpar diogelu personol, cymorth cyffredinol a chlinigol ar gyfer cartrefi gofal, llesiant preswylwyr, llesiant y sector gofal cymdeithasol, a chynaliadwyedd ariannol yn adnodd defnyddiol ar gyfer y dyfodol. Roedd Mr Gething yn cytuno bod y gwersi a ddysgwyd yn ystod pandemig COVID-19 yn galluogi Llywodraeth Cymru, pe bai pandemig yn y dyfodol, i ystyried y sefyllfa mewn cartrefi gofal yn gynt, er mwyn deall sut roedd y cynlluniau ar gyfer pandemig yn cael eu rhoi ar waith. Pwysleisiodd hefyd yr angen i sicrhau bod y capasiti yn bodoli i lunio cynlluniau gweithredu newydd yn ogystal ag ymateb i argyfwng.[77] Yn hynny o beth, nododd Mr Heaney, pan gafwyd galwadau am Gynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal yn gyntaf, fod ei dîm yn gweithio'n ddiflino ar y camau gweithredu a gafodd wedyn eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu. [78]

Argymhellion

86. Hoffai Llywodraeth Cymru dynnu sylw'r Ymchwiliad at nifer o argymhellion a wnaed gan ei thystion.

(a) Tâl Salwch Statudol. Yn achos pandemig yn y dyfodol, sicrhau bod trefniadau ar gyfer Tâl Salwch Statudol yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl; [79]

(b) Sector gofal sefydlog. Mae rhesymeg glir dros sicrhau bod digon o adnoddau ar gael yn y sector gofal i gefnogi system gofal cymdeithasol wydn ac ymatebol. Nododd Mr Heaney y bydd ymchwil yn cael ei chomisiynu, fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yng Nghymru, i asesu'r dirwedd ariannu bresennol ac ystyried yr hyn y gallai fod ei angen er mwyn symud tuag at fodel lle mae gofal yn cael ei ddarparu am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen;

(c) Telerau ac amodau'r gweithlu. Nododd Mr Heaney waith parhaus Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol sy'n parhau i ystyried telerau ac amodau'r gweithlu yng Nghymru;

[77] Gething 15/7 [10/86/8-10/87/50]
[78] Heaney 15/7 [10/180/22-10/181/2]
[79] INQ000587254/109, para 389

(d) Capasiti profi. Ffocws ar sefydlu capasiti profi yn gyflym yn achos pandemig yn y dyfodol y gellir ei gynyddu'n gyflym pan fydd profion newydd ar gael ac sydd â digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol fel gofyniad sylfaenol;

(e) Data a thystiolaeth ar ofal cymdeithasol. Dealltwriaeth well o'r sector yng Nghymru drwy brosesau casglu data gwell. Noda Mr Heaney fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio tuag at wella'r broses o gasglu data ar ofal cymdeithasol; a

(f) Cynllunio at argyfwng a sicrwydd risg. Adnodd gwell/penodol i wella gwydnwch ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol yn hytrach na bod hyn yn cael ei ystyried yn ychwanegol at y swydd bob dydd. [80]

87. Rhoddodd Ms Baranski grynodeb o'r gwersi a'r myfyrdodau allweddol ar ran Arolygiaeth Gofal Cymru, sef:

(a) Pwysigrwydd mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a'u teuluoedd a'u heiriolwyr, yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau;

(b) Yr angen i leihau effaith yr anallu i weld teulu a ffrindiau ar iechyd meddwl defnyddwyr gwasanaethau i'r eithaf;

(c) Pwysigrwydd cyfathrebu cydgysylltiedig i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n llwyddiannus o'r ysbyty;

(d) Pwysigrwydd strategaeth cyfathrebu gydgysylltiedig i leihau achosion o ddyblygu a sicrhau bod negeseuon yn cael eu rhannu â'r bobl gywir ar yr adeg gywir;

(e) Sicrhau bod profion a chanlyniadau amserol, cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol a chyfarwyddiadau clir ynghylch ei ddefnyddio, a hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ar gael i staff iechyd a gofal cymdeithasol;

[80] INQ000551798/20, para 702-707

(f) Pwysigrwydd parhad staff er mwyn helpu i leihau'r risg y caiff y feirws ei drosglwyddo os bydd staff yn gweithio mewn gwasanaethau gwahanol;

(g) Rhyngddibyniaeth y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gydnabod y dylai darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol gael eu trin fel partneriaid cyfartal ac y dylid rhoi'r un parch i bobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol; ac

(h) Mae gweithio gyda phartneriaid a rhannu gwybodaeth â nhw yn allweddol i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau gofal.

Casgliad

88. Drwy gydol y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddiogelu poblogaeth Cymru a cheisiodd daro cydbwysedd rhwng diogelu iechyd a llesiant y rhai a oedd yn cael gofal, eu hanwyliaid, a'r darparwyr gofal, a'r angen i achub bywydau.

89. Fel y pwysleisiodd Mr Gething yn ei dystiolaeth, roedd yr angen i gydbwyso risg a niwed yn sail i bron pob penderfyniad a wnaed gan y Llywodraeth yn ystod y pandemig, ynghyd â'r angen i wneud dewisiadau ar gyfer cymdeithas gyfan[81] a oedd yn ceisio mynd i'r afael â niwed tebygol.

90. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gwersi i'w dysgu o ran y llwyddiannau y dylid eu cynnal yn y system gofal cymdeithasol er mwyn paratoi a chynllunio ar gyfer pandemig yn y dyfodol, ac o ran nodi gwelliannau ac argymhellion o ran yr hyn a allai fod wedi gweithio'n well.

91. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion yr Ymchwiliad yn ofalus ac mae'n eu croesawu fel ffordd gadarnhaol o sicrhau gwydnwch a bod yn barod ar gyfer pandemig yn y dyfodol.

8 Medi 2025

[81] Gething, 15/7 [100/7]